**Cofnodion wedi'i gadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru 10 Mai 2023 am 09:30, yn 3.3 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Young | (KY) | Chyfarwyddwr Anweithredol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| John Baker | (JB) | Contractwr Cyllid |
| Henry Bales | (HB) | Arbenigwr Atal Twyll Lleol, Atal Twyll (a ymunodd am 09:35 ar gyfer eitem 4) |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (a ymunodd am 09:34) |
| Anne Beegan | (AB) | Archwilio Cymru |
| Julie Bishop | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 8d) |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (a ymunodd am 09:40 a gadawodd am 10:50) |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Claire Green | (CG) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Cynllunio a Chyflawni Ariannol, Cynllunio a Chyflawni Ariannol, Gweithrediaeth GIG Cymru (ar gyfer eitem 3.1) |
| Gareth Lavington | (GL) | Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol, Atal Twyll (a ymunodd am 09:35 ar gyfer eitem 4) |
| Martyn Lewis | (ML) | Archwiliwr, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd |

Wedi'i Gadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Angela Jones | (AJo) | Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant (ar gyfer eitem 8d) |
| Jane Matthews | (JM) | Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Angela Williams | (AW) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Steve Wyndham | (SW) | Archwilio Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30

**ACGC 1/2023.05.10 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig a wyneb yn wyneb yn CQ2.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Medi 2023.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.

**ACGC 2/2023.05.10 Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**ACGC 3/2023.05.10 Sicrwydd Blynyddol Cyrff a Letyir**

**ACGC 3.1/ 2023.05.10 Datganiad Sicrwydd Blynyddol yr Uned Cyflawni Cyllid**

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** Datganiad Blynyddol Uned Gyflawni Cyllid GIG Cymru.

Croesawodd NE CG o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Chyflawni Cyllid, (sydd bellach yn rhan o Weithrediaeth y GIG) i'r Pwyllgor. Darparwyd Datganiad Sicrwydd yr Uned Gyllid a Chyflawni i'r Pwyllgor yn flynyddol i roi sicrwydd bod Uned Cyflawni Cyllid y GIG, a oedd yn cael ei chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru tan 31 Mawrth 2023, wedi cydymffurfio â gofynion y cytundeb lletya, gan gynnwys cydymffurfio â rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol, polisïau a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Darparodd CG drosolwg a oedd yn crynhoi'r adroddiad ac yn amlygu gwaith yr Uned dros y 12 mis blaenorol. Nododd mai hwn fyddai Datganiad Sicrwydd

Wedi'i Gadarnhau

terfynol yr Uned; daeth yr Uned yn Gyfarwyddiaeth o fewn Gweithrediaeth y GIG ar 1 Ebrill 2023 a byddai'n adrodd drwy Ddatganiad Sicrwydd y Weithrediaeth yn 2023/24.

Dywedodd HG wrth y Pwyllgor ei fod yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Swyddfa sy'n Gyfrifol am yr Uned Cyflawni Cyllid drwy gydol y flwyddyn a bod hynny'n cadarnhau cywirdeb y Datganiad a'i fod yn edrych ymlaen at weithio gyda CG yn y dyfodol.

Diolchodd y Pwyllgor i CG am y Datganiad a:

- Cafwyd **sicrwydd** bod Uned Cyflawni Cyllid GIG Cymru wedi cydymffurfio â rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol, polisïau a gweithdrefnau;
- **Nodwyd** y byddai Uned Cyflawni Cyllid GIG Cymru yn rhan o Weithrediaeth y GIG o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Byddai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer trosolwg ac atebolrwydd yn rhan o Lywodraethu Gweithrediaeth y GIG, a chytunwyd ar gytundeb lletya diwygiedig rhwng Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i egluro'r cyfrifoldebau lletya.

## ACGC 4/2023.05.10 | Archwiliad Dwfn Atal Twyll

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Atal Twyll; Adroddiad Blynyddol Atal Twyll 2022/23; Cynllun Gwaith Atal Twyll 2023/24; a Threfniadau Atal Twyll Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd yr Adroddiad Cynnydd yn dangos cynnydd o 10% yng ngwaith y Sefydliad o ganlyniad i nifer yr ymchwiliadau a gynhaliwyd a chwe sesiwn ymwybyddiaeth (gweminarau). Derbyniwyd dau atgyfeiriad ac roedd y ddau wedi'u hymchwilio a'u cau'n fewnol heb fod angen troi at erlyniad troseddol.

Roedd Adroddiad Blynyddol Atal Twyll yn dogfennu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o Gydymffurfiaeth i'r Awdurdodau Atal Twyll.

Roedd y Sefydliad wedi'i raddio'n oren yn gyffredinol yn yr adroddiad gan nad yw wedi cofnodi nac adolygu ei 14 o risgiau atal twyll yn ddigonol a ystyriwyd yn gynhenid i'r Sefydliad ac a adroddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf. Roedd gwaith o fewn y tîm wedi dechrau, a byddai cynnydd yn cael ei adrodd yn adroddiad cynnydd pob chwarter, gan ddangos cyfanswm yr asesiadau risg twyll a gwblhawyd; y mesuriadau a gofnodwyd; ac awgrymiadau ar gyfer gwaith sydd angen ei wella er mwyn cyflawni risg â sgôr is.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch Rheoli Risg cyffredinol o fewn y Sefydliad. Dywedodd GL wrth y Pwyllgor ei fod yn gweithio gyda'r Sefydliad i sicrhau bod Risgiau Atal Twyll yn cael eu cofnodi yng Nghofrestr Risg y Sefydliad. Byddai copi o'r holl asesiadau risg a gynhaliwyd yn Chwarter 1 yn

Wedi'i Gadarnhau

cael eu cofnodi yn Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 i sicrhau y gellid asesu risg twyll o fewn y Sefydliad, ei ddiweddaru a'i gofnodi'n gywir yn y Gofrestr Risg.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gellid annog presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi Gwrth Dwyll, yn benodol, a ddylid ystyried hyn ar gyfer hyfforddiant gorfodol i leihau'r risg o dwyll yn gyffredinol. Darparodd GL a'i dîm sesiynau Atal Twyll wedi'u targedu ar gyfer gwahanol dimau yn rheolaidd, a hysbysebwyd sesiynau ar-lein misol i staff gofrestru ac roedd ei dîm bob amser yn edrych am strategaethau newydd i'w cyflwyno.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylai rolau allweddol o fewn y Sefydliadau ymgymryd â hyfforddiant atal twyll, ac roedd y Tîm Cyllid wedi edrych am ffyrdd o sicrhau lefelau uchel o hyfforddiant. Byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.
**Cam Gweithredu: AW**

Amlinellodd tîm Atal Twyll newydd Caerdydd a'r Fro (a sefydlwyd yn 2022) ei Gynllun Gwaith. Y blaenoriaethau ar gyfer 2023/24 oedd e-ddysgu; rheoli risg; ymchwiliadau yn deillio o atgyfeiriadau, byddai unrhyw ymchwiliadau yn cael blaenoriaeth; addysg, hyfforddiant ymwybyddiaeth; a gwaith rhagweithiol.

**Nododd** y Pwyllgor y cynllun gwaith a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y trefniadau atal twyll sydd ar waith ar gyfer y Sefydliad.

Crynhodd GL bapur Atal Twyll yn manylu ar y ddarpariaeth ar gyfer y Sefydliad, gan nodi bod adolygiad GIG Cymru gyfan yn cael ei ystyried. Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Trefniadau Atal Twyll ar gyfer y Sefydliad a chafodd **sicrwydd** bod y lefel briodol o wasanaeth ar gael i'r Sefydliad bob amser.

| **ACGC 5/2023.05.10** | **Adroddiad Blynyddol<br>(Datganiad Cyfrifon a Llywodraethu)** |
|---|---|
| **ACGC 5.1/<br>2023.05.10** | **Cyfrifon Drafft 2022/23** |

**Dywedodd** HG wrth y Pwyllgor fod y cyfrifon drafft yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a rhoddodd **sicrwydd** bod y Sefydliad wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol drwy gydol y flwyddyn.

**Derbyniodd** y Pwyllgor gyflwyniad o'r cyfrifon a oedd yn manylu ar y targedau perfformiad allweddol, a'r dyletswyddau statudol a gweinyddol ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Cyflwynwyd y cyfrifon yn brydlon ac roeddent yn cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol newydd (IFRS 16) sydd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesi adeiladu (ased hawl i ddefnyddio) gael eu cofnodi fel asedau cyfalaf, gan ddangos dibrisiant. Mae GIG Cymru wedi cynnal ymarfer ailbrisio ac wedi nodi ailbrisiad ar i lawr yn bennaf oherwydd adeiladu IP5 yn ystod y pandemig COVID.

Wedi'i Gadarnhau

Gostyngodd incwm y Sefydliad yn dilyn newidiadau o ganlyniad i symud o weithio pandemig i weithio arferol. Roedd incwm craidd a chyllid tâl wedi cynyddu, ac roedd cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo gwaith ym maes gordewdra, atal y blynyddoedd cynnar, profion heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar-lein ac wedi gwella adferiad sgrinio.

Yn sgil trosglwyddiadau gwasanaeth symudodd Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) a Chaffael System Gwybodaeth Radioleg (RISP) o Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 1 Ionawr 2023. Trosglwyddodd Timau Iechyd y Cyhoedd Lleol o Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w Byrddau Iechyd unigol ar 1 Hydref 2022. Arweiniodd y trosglwyddiadau hyn at ostyngiad mewn incwm craidd.

Aeth y Sefydliad i'r afael â chanfyddiadau'r Archwiliad o Gyfrifon Blynyddol 2021-22:

- cyflogau wedi'u cadarnhau yn erbyn contractau a llythyrau;
- cysoni Cyfalaf Difidend Cyhoeddus â phapurau Llywodraeth Cymru;
- cysondeb y categori incwm â chonfensiynau 2021/22;
- cyfrifo symiau rhagdaliad yn gywir ar ddiwedd y flwyddyn;
- ailddatgan trafodion ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dau barti cysylltiedig;
- gweithredu templedi grant gan sicrhau cywirdeb yr amserlenni cofnodi;
- gwell dulliau cyfrifo ar gyfer croniadau contractau Microbioleg a chynnwys croniadau cyn cau diwedd blwyddyn;
- cadarnhad gan reolwyr i sicrhau nad oedd prosiectau cyfalaf yn cwmpasu mwy na blwyddyn.

Roedd Archwilio Cymru wedi dechrau ar ei waith a byddai eu hadroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 12 Gorffennaf 2023 a'i gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ar 27 Gorffennaf 2023. Byddai'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno gan Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf 2023.

Mynegodd y Pwyllgor eu diolch i'r tîm cyllid am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr a nododd warged llai a gofnodwyd eleni a chynnydd mewn incwm o ganlyniad i gyfraddau llog banc cynyddol.

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiad

| **ACGC 5.2/ 2023.05.10** | **Adroddiad Atebolrwydd** |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Atebolrwydd drafft a oedd yn cadarnhau bod y Sefydliad yn bodloni gofynion atebolrwydd a **chymeradwyodd** ei gyflwyniad i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.

Wedi'i Gadarnhau

| **ACGC 5.3/ 2023.05.10** | **Barn ac Adroddiad Blynyddol Drafft y Pennaeth Archwilio Mewnol 2022/23** |
|---|---|

**Derbyniodd** a **nododd** y Pwyllgor Farn ac Adroddiad Blynyddol Drafft y Pennaeth Archwilio Mewnol 2022/23. Roedd barn yr Adroddiad yn rhoi sicrwydd rhesymol ac yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn y flwyddyn flaenorol, ac yn adrodd ar Asesiad Ansawdd Allanol ym mis Mawrth 2023 – adroddiad annibynnol a gynhelir bob pum mlynedd – a oedd yn cadarnhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau gofynnol.

| | **Egwyl** |
|---|---|
| **ACGC 6/2023.05.10** | **Rheoli Risg** |
| **ACGC 6.1/ 2023.05.10** | **Diweddariad ar Ddatblygiad y Gofrestr Risg Strategol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Strategol gyfredol. Byddai Risgiau newydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, a'u cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi.

Roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru gyda Risg Cymru Gyfan yn gysylltiedig â throsglwyddo'r Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai (LINC) i Ofal Iechyd Digidol Cymru ar gais Llywodraeth Cymru.

**Nododd** y Pwyllgor y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor a chymerodd **sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y Sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

| **ACGC 7/2023.05.10** | **Archwilio Allanol** |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Diweddaru Archwilio Cymru a Chynllun Blynyddol Archwilio Cymru.

Nododd SW feysydd ymchwilio'r archwiliad ar gyfer y flwyddyn i ddod:
- Risg a thuedd wrth adrodd
- Newidiadau mewn dulliau adrodd (IFR16)
- Newidiadau mewn staffio a thâl
- Gwaith dilynol ar faterion a nodwyd yn Archwiliad 2021/22

Cadarnhaodd SW fod Archwilio Cymru wedi dechrau ar ei waith a'i fod yn bwriadu dod â'r adroddiad terfynol a'r canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn yr wythnos yn dechrau 10 Gorffennaf.

Cadarnhaodd AB yr elfennau perfformiad ar gyfer Archwilio yn y flwyddyn 2023/23:
- Effeithiolrwydd y Bwrdd,
- systemau sicrwydd,
- rheolaeth ariannol
- cynllunio strategol
- Ffocws archwiliad dwfn ar fuddsoddiad digidol

Wedi'i Cadarnhau

Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai digidol yn cael ei ddiffinio at ddibenion yr Archwiliad Dwfn, ac y byddai agwedd Cymru Gyfan ar gynhwysiant digidol yn cael ei chynnwys gan fod mynediad digidol yn cael ei gydnabod fel her mewn rhai meysydd.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gallai gwaith Archwilio Cymru ddangos dylanwad a'r effaith ar eu gwaith ar y Sefydliad a gwella canlyniadau. Gofynnodd Archwilio Cymru i'r cais hwn gael ei gynnwys yn yr Arolwg Rhanddeiliaid a ddosbarthwyd.

**Nododd** y Pwyllgor gynllun gwaith Archwilio Cymru a'r cynnydd mewn ffioedd Archwilio y manylwyd arnynt yn y llythyr a dderbyniwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

| ACGC 8/2023.05.10 | Archwilio Mewnol |
|---|---|

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** adroddiadau Archwilio Mewnol:

- Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth) (Sicrwydd Cyfyngedig)
- Rheoli Contract Llywodraethu Gwybodaeth (Sicrwydd Rhesymol)
- Seiberddiogelwch (Sicrwydd Sylweddol)
- Diogelu Iechyd (Sicrwydd Sylweddol)

**Ystyriodd** a **derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Diogelu Iechyd.

**Ystyriodd** a **derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Llywodraethu Gwybodaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am gyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol ar raddfa'r contractau a oedd yn llai na £25,000, i gadarnhau'r sicrwydd a roddwyd yn yr Adroddiad.
**Cam Gweithredu: AW/RBW**

**Ystyriodd** a **derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Seiberddiogelwch. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodir yn yr Adroddiad yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn yn rheolaidd.

**Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth). Roedd y canfyddiadau allweddol a ddogfennwyd yn yr Adroddiad yn ymwneud â'r broses ar gyfer dyrannu, monitro a gweinyddu rheoli risg y grantiau. Roedd y cynllun gweithredu cynhwysfawr dilynol yn cydnabod yr argymhellion ac yn cynnwys amserlenni ar gyfer gwella.

Croesawodd y rheolwyr y canfyddiadau, a chydnabu nad oedd gwaith ôl-bandemig wedi adfer yr holl systemau monitro arferol. Cofnodwyd hyn yng nghanfyddiadau'r Adroddiad. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai ymateb cymesur a graddedig yn sicrhau bod y craffu'n cyflawni'r gweithgaredd a'r effaith a ddisgwylir.

Wedi'i Gadarnhau

Cydnabu’r Pwyllgor fod yr Adroddiad hwn yn ganlyniad system flaenorol o weithio, a bod y Sefydliad wedi symud i ffordd newydd o weithio ar ôl y pandemig ac roedd yr Adroddiad hwn yn caniatáu i’r Sefydliad edrych ar sut yr oedd yn gweithio a sut i ddatblygu prosesau i gofnodi canlyniadau'r grantiau.

Croesawodd y Pwyllgor y diddordeb a ddangoswyd yn yr Adroddiad hwn gan Ddirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a oedd wedi trafod y materion hyn ag aelodau’r Pwyllgor hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y gallu yn bodoli yn y Sefydliad i symud o fonitro ei brosesau i fonitro ei ganlyniadau gan fod angen setiau sgiliau gwahanol arnynt, ac a oedd y data hyn yn cael eu casglu’n rheolaidd ar lefel Bwrdd Iechyd.

**Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth) a **nododd** ei fod yn dangos bod y Sefydliad wedi comisiynu archwiliadau i dargedu meysydd i'w gwella a gofynnodd am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf i adolygu'r cynnydd o ran gweithredu.
**Cam Gweithredu: JB/AJo**

| | |
|---|---|
| **ACGC 9/2023.05.10** | **Cyllid a Chaffael** |
| **ACGC 9.1/ 2023.05.10** | **Adroddiad Caffael** |

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiad a chymerodd **sicrwydd** bod gweithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

| | |
|---|---|
| **ACGC 9.2 2023.05.10** | **Colledion a Thaliadau Arbennig** |

**Nododd** y Pwyllgor a chymerodd **sicrwydd** bod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi'u gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

| | |
|---|---|
| **ACGC 10/2023.05.10** | **Llywodraethu Pwyllgorau** |
| **ACGC 10.1/2023.05.10** | **Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion sy’n Codi** |

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Gofnodion a Chofnod Gweithredu’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023.

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 fel cofnod cywir;
- **Cymeradwyo** cau un weithred wedi'i chwblhau ar y Log Gweithredu.

| | |
|---|---|
| **ACGC 10.2/ 2023.05.10** | **Llywodraethu Pwyllgorau Blynyddol** |

Wedi'i Gadarnhau

**Derbyniodd** y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor a **chymeradwyodd** ei gyflwyniad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai yn amodol ar un newid ar dudalen 9 i ddangos bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd ynghylch cynnydd ac y byddai'n ystyried yr Asesiad Strwythuredig ac Adroddiadau Blynyddol Cymru Gyfan mewn cyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol 2023/24 hon.

**Derbyniodd** a **chymeradwyodd** y Pwyllgor y Cynllun Gwaith a'r Cylch Gorchwyl diwygiedig a'r Cynllun Gwaith i'w cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

| | |
| --- | --- |
| **ACGC 11/ 2023.05.10** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **ACGC 11.1/ 2023.05.10** | **Rheoli Risg** |

**Nododd** y Pwyllgor y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol.

| | |
| --- | --- |
| **ACGC 12/ 2023.05.10** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |

Cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor ddydd Mawrth 19 Medi 2023, a byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf i gymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol a'r Adroddiad i'w cyflwyno i'r Bwrdd.

**Nododd** y Pwyllgor y byddai holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, ac **eithrio** :

- Adroddiad Caffael
- Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig
- Adroddiadau yn ymwneud â Seiberddiogelwch.
- Adroddiadau drafft (i'w cyhoeddi ar ôl eu cymeradwyo)

**Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd y Pwyllgor am drafodaeth ynghylch Cyrff a Letyir. Cytunodd HG y byddai sesiwn arbennig yn cael ei threfnu i ateb cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor.

**Cam Gweithredu: HG**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod at LB.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20

Wedi'i Gadarnhau